**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/HIDCC/5192/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

31 Gorffennaf 2024

Annwyl Paul,

Rwy'n falch o gyhoeddi mai Dr Susannah Bolton sydd wedi'i phenodi yn gadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r adolygiad statudol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi'u cyflwyno ym mis Ebrill 2021 gan nodi dull Cymru gyfan o leihau effeithiau niweidiol llygredd o weithgareddau amaethyddol. Mae'r broses wedi'i chyflwyno'n raddol dros gyfnod o bedair blynedd a bydd y set derfynol o fesurau yn dod i rym erbyn diwedd y flwyddyn. Cyflwynwyd Dull Rheoli Maethynnau Uwch 12 mis ar gyfer blwyddyn galendr 2024.

O leiaf bob pedair blynedd, rhaid adolygu effeithiolrwydd y mesurau sydd wedi'u gosod gan y Rheoliadau o ran lleihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac, os gwelir bod angen, eu diwygio. Mae gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad wedi'i wneud a bydd yr adolygiad, a gaiff ei oruchwylio gan Dr Bolton, yn rhoi cyfle gwych i bwyso a mesur a gwrando ymhellach ar yr ystod eang o safbwyntiau ar effeithiolrwydd y rheoliadau. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ar y cynigion ynghylch mesurau amgen, yn unol ag ysbryd gwir bartneriaeth.

Mae Dr Bolton yn Ddirprwy Brifathro Menter a Chyfnewid Gwybodaeth Coleg Gwledig yr Alban, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau a arweinir gan genhadaeth i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cynhyrchu bwyd a'r economi naturiol. Tan fis Rhagfyr 2021, roedd yn Gyfarwyddwr Ymchwil ar gyfer y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), yn gyfrifol am raglen ymchwil gymhwysol ar ran ffermwyr a phroseswyr ar draws sectorau âr, garddwriaeth, anifeiliaid sy'n cnoi cil a phorc y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn hynny, roedd Dr Bolton yn Gyfarwyddwr Cyfnewid Gwybodaeth a goruchwyliodd y gwaith o ddatblygu Platfform Rhagoriaeth Fferm AHDB, sef rhwydwaith o ffermwyr o dros 70 o fusnesau fferm, sy'n darparu cyfleoedd cyfnewid gwybodaeth, dysgu rhwng cymheiriaid a meincnodi. Mae ganddi brofiad blaenorol mewn cyd-destun Cymreig pan fu yn rhan o waith trawsffiniol mewn perthynas â dalgylch Gwy gan gefnogi dulliau gwneud penderfyniadau i ffermwyr eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael â cholli maetholion. Mae ganddi PhD mewn Amaeth-goedwigaeth Trofannol a threuliodd 3 blynedd yn gweithio gyda'r darparwr ymchwil EMBRAPA yng Ngogledd-ddwyrain Brasil. Wedi hynny bu'n gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol a chyfathrebu allanol yn Rothamsted Research.

Rwy’n credu bod yr adolygiad hwn yn hynod bwysig ac rwyf yn ddiolchgar iawn i Dr Bolton am dderbyn y swydd o gadeirydd annibynnol.  Mae disgwyl adroddiad terfynol ac argymhellion o'r adolygiad i Weinidogion Cymru erbyn diwedd Mawrth 2025, fydd rwy’n siŵr o ddiddordeb i aelodau’r pwyllgor.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig